Pecyn Athrawon

i fynd gyda

Gair am Air

Clwyd Theatr Cymru
Theatr Pobl Ifanc
cynhyrchiad ar gyfer
Cyfnod Allweddol 2
(disgyblion 9-11 oed)

Gair gan y Cyfarwyddwr

Cawsom hwyl mawr yn creu ***Gair am Air,*** chwarae gyda geiriau a delweddau o amgylch syniad canolog.

Rydym eisiau annog pobl ifanc i archwilio syniadau dinasyddiaeth a chyfrifoldeb, fel a welir yn y ddrama, ac arbrofi gyda'r syniadau hynny trwy gyfrwng eu creadigedd eu hunain.

Mae'r sgript weithiau yn farddonol, weithiau yn delynegol, ac ar adegau eraill ar ffurf dialog naturiol. Yn yr un ffordd, rydym wedi defnyddio pypedau, sain a goleuadau i ychwanegu haenau i'r darn er mwyn dangos gwahanol ffurfiau creadigol i bobl ifanc er mwyn iddynt fedru mynegi eu hunain.

Gobeithiwn yn fawr iawn y byddwch chi a'ch disgyblion yn mwynhau'r perfformiad a'r gweithdai, ac yn cael y profiad yn fewnbwn gwerthfawr i'r cwricwlwm ar nifer o lefelau.

Tim Baker

Pennaeth yr Adran Addysg ac Is-Gyfarwyddwr

Cyflwyniad

Amcan ***Gair am Air*** yw hyrwyddo awch i ddefnyddio geiriau ac mae'n delio gyda'r thema o ddweud stori - elfen o'r **Awr Lythrennedd.** Mae'r cymeriadau yn y ddrama yn adrodd eu hanes hwy a thrwy hynny, yn datblygu synnwyr o hunaniaeth bersonol.

Diben y pecyn hwn yw rhoi cyfle i athrawon ymestyn profiad y plant o'u diwrnod yng ***Nghlwyd Theatr Cymru*** . Mae'n cynnwys nodiadau i athrawon a dalennau i'w llungopïo ar gyfer disgyblion, a'r bwriad yw dipio i mewn iddo. Mae'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwaith sy'n delio gyda'r **Chwe Sgil Allweddol:** cyfathrebu, gweithio gydag eraill, gwella eich dysgu a'ch perfformiad a datrys problemau, trwy drafodaeth, darllen, ysgrifennu, celfyddyd a gwaith perfformio yn y meysydd pwnc canlynol:

Saesneg a Drama
Daearyddiaeth
Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Byddai'r Adran Addysg yn y theatr yn falch o dderbyn copïau o unrhyw waith dilynol a wnewch, gan ein bod eisiau ei ddodi ar ein safwe. I ddelio gyda'r Sgil Allwedol Technoleg Gwybodaeth, gallech ymgorffori'r cyfrwng hwn wrth gyflwyno tasgau o'r pecyn hwn.

Mae ffurflen adroddiad yn y pecyn , ac mi fuasem yn ddiolchgar iawn petaech yn ei chwblhau a'l dychwelyd atom.

Gobeithiwn y byddwch chi a'ch disgyblion yn mwynhau **Gair am Air,** ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn y theatr unwaith eto yn fuan.

Saesneg a Drama

Maes Astudiaeth 1 - Adrodd

Gwaith Darllen ac Ysgrifennu : *Fandaliaid Afiach yn Ymosod ar Bensiynwr*

Yn ***Gair am Air*** mae plant yn mynd i hen dy y maent yn credu ei fod yn wag. Cânt eu dychryn gan hen wr, Reg Owen, sy'n byw yno. Mae Reg yn baglu ac yn syrthio i lawr y grisiau. Mae'r digwyddiad yn cael ei adrodd mewn papur newydd lleol, ond mae'r holl ffeithiau yn anghywir. Mae'r stori yn y papur yn troi'r digwyddiad yn stori ddramatig. Nid yw'r adroddiad yn un 'gair am air' o'r hyn a ddigwyddodd.

(Gweler Dalen Ddisgyblion 1)

Gwaith Ymchwil ac Ysgrifenedig: Papurau Newyddion

Gan ddefnyddio detholiad eang o bapurau newydd, gofynnwch i'r dosbarth dorri allan cymaint o eiriau cyffroyddol ag y bo modd- POEN, YMOSODIAD, HWLIGANIAID, TRASIEDI ac ati.

Yna, mae pob disgybl yn ysgrifennu stori papur newydd o stori dylwyth teg adnabyddus (mae ***Elen Benfelen*** a ***Hugan Fach Goch*** yn enghreifftiau defnyddiol) gan ddefnyddio pob un o'r geiriau, gan osod eu stori yn ôl y dull priodol, efallai gan gynnwys 'ffotograff'.

Maes Astudiaeth 2 - A Midsummer Night's Dream

Yn ***Gair am Air*** , mae Sally, Kate, Maldwyn a Dyfrig yn aml yn cogio bod yn gymeriadau amrywiol o raglenni teledu adnabyddus. Mae Kate a Sally ill dwy eisiau bod yn Buffy the Vampire Slayer, ond rhaid i Sally fodloni ar Lara Croft.
Yn y ddrama ***A Midsummer Night's Dream***, mae Nick Bottom eisiau chwarae pob rhan yn y ddrama ***Pyramus and Thisbe***, ond nid yw gweddill y grwp yn hapus gyda hyn.

Gwaith Darllen/Ysgrifennu: Act 1 Golygfa 2 - *A Midsummer Night's Dream*

Darllenwch trwy'r darn o'r ddrama gyda'r dosbarth. Os oes gennych fideo neu recordiad o'r olygfa, efallai y byddai'n ddefnyddiol chwarae hwn i'r dosbarth yn gyntaf.

(Gweler Dalen Ddisgyblion 2)

Gwaith Ysgrifennu - 'Cyfieithu' yr Olygfa

Ysgrifennwch yr olygfa mewn Saesneg modern, efallai hyd yn oed newid ***Pyramus and Thisbe*** i ***Star Wars***.

Pyramus - Hans Solo neu Luke Skywalker
Thisbe - Princess Leia
y Llew - Chewbacca

Drama : Perfformiad o'r Olygfa (Golygfeydd) wedi eu Sgriptio

Ymarfer a pherfformio'r golygfeydd - un Shakespeare a'u golygfa hwythau

Celfyddyd: Dylunio Gwisgoedd

Dylunio gwisg i Pyramus, Thisbe neu'r Llew.

[Nodyn: Rwyf wedi defnyddio fersiwn symlach o ***Pyramus and Thisbe*** testun o ***A Midsummer Night's Dream*** gyda disgyblion Bwyddyn 7 gallu isel, a weithiodd yn dda. Oherwydd bod y darn wedi ei fwriadu i'w gyflwyno mewn dull 'amhroffesiynol', mae'n golygu bod y mwyaf hunan-ymwybodol o actorion dosbarth yn medru cyflwyno perfformiad perffaith. Roedd y grwp yn teimlo eu bod wedi cyflawni rhywbeth gwirioneddol, wedi perfformio Shakespeare, a chawsant hwyl mawr yn cynhyrchu gwisgoedd rhagorol, yn enwedig ar gyfer y llew a'r mur.]

Maes Astudiaeth 3 - Realaeth a Ffantasi

Yn ***Gair am Air*** un o'r cysyniadau perfformio a dylunio 'roeddem yn awyddus i'w astudio oedd gallu plant i greu'r ffantastig o'r arferol - trwy hyn gall cadeiriau droi'n fysus, beiciau modur, ffigar-êt a choeden.

Darllen : *Nursery Chairs* a darn allan o *The Bed Book*

Darllenwch trwy'r cerddi ***Nursery Chairs*** a **Darn o *The Bed Book*** , sy'n archwilio'r syniad hwn (er iddynt gael eu cyfansoddi ar gyfer plant iau).

(Gweler Dalen Ddisgyblion 3)

Pwyntiau ar gyfer Trafodaeth: Profiadau Personol

* A ydych erioed wedi cogio bod pethau fel cadeiriau a byrddau yn rhywbeth arall? (Gofynnwch iddynt ddychmyngu eu bod yn blant bach os ydynt yn amharod siarad am nawr)

* Mae gan y plant yn y ddrama ***Gair am Air*** enw ar y gang, y Supersonics a lle abennig lle maent yn mynd - yr hen gar. A ydych chi erioed wedi bod yn rhan o gang gyda lle arbennig?

Drama - Gwaith Byrfyfyr : Cadeiriau Ffantasi

Rhennwch y plant yn grwpiau o bedwar a rhoi pedair cadair fesul grwp iddynt. Mae ganddynt 15 munud i droi'r cadeiriau yn rhywbeth sydd mor anarferol ag y bo modd, gan ddefnyddio eu dychymyg yn unig a dim celfi eraill (llywiwch nhw i ffwrdd oddi wrth geir!)

Yna mae angen idydnt greu golygfa fer a fydd yn ei gwneud yn amlwg i weddill y dosbarth beth yw eu cadeiriau hwy.

Dangoswch hyn i'r dosbarth a gofyn i'r dosbarth feddwl beth yw'r cadeiriau.

Maes Astudiaeth 4 - Amgylcheddau

Diben yr adran hon yw canolbwyntio ar sgiliau drama allweddol - ymwybod â gofod, creadigedd, amgylchedd, awyrgylch - a sgiliau grwp - cyfathrebu, cyfaddawd, cyfranogiad, deinamig grwp ac ati.

> Mae'n datblygu'r syniad a drafodwyd ym **Maes Astudiaeth 3** - **Realaeth a Ffantasi** - annog disgyblion i greu perfformiadau drama ffantastig neu haniaethol. Fel arall, maent yn tueddu i lynu at yr hysbys ac yn gwbl ddibynnol ar ddodrefn!

Drama - Gêm : Cystadleuaeth Siapiau

Mae nifer dirifedi o rowndiau i'r gêm hon. Mae'r dosbarth yn dod yn well ac yn well wrth iddynt ddeall deinamig y gêm a sut mae eu grwp hwy yn gweithio.

Rhennwch y dosbarth yn ddau dîm. Rhaid iddynt greu siap a elwir allan i'r dosbarth e.e. - y rhif '48', seren, y gair 'ci', car, pyramid ac ati.

Gofynnwch iddynt arbrofi gyda lefelau (rhai o'r grwp ar y llawr, yn penlinio, sefyll ac yn y blaen) gan fod hyn yn fwy diddorol i edrych arno. Bydd y grwpiau gwell yn dechrau meddwl yn awtomatig mewn 3D.

Mae'r ddau grwp yn rasio yn erbyn ei gilydd. Fodd bynnag, nid cyflymder yw'r unig beth i'w ystyried, ond creadigrwydd a gwreiddioldeb hefyd. Nid y tîm cyflymaf a fydd o angenrheidrwydd yn ennill y pwynt os yw'r grwp arall yn meddwl am ateb mwy effeithiol, hyd yn oed os yw'n cymryd mwy o amser. Os ydynt yn cymryd gormod o amser, dechreuwch gyfrif. Rhoddwch bwyntiau ar ddiwedd pob rownd.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol rhannu'r ystafell yn ddau fel bod ganddynt le penodol i weithio ynddo, gyda sialc neu dâp.

Gellir datblygu'r gêm hon trwy ofyn iddynt greu siapiau wedi eu hanimeiddio e.e. pair yn berwi, ffigar-êt, peiriant tostio ac yn y blaen.

Darllen :*The Word Party* gan Richard Edwards

Gall y gerdd hon fod yn bont ddiddorol i'r gwaith byrfyfyr canlynol oherwydd mae'n cyflwyno'r syniad o **anthropomorffeiddio** y mae'r dasg yn dibynnu arno. Mae hefyd yn gerdd dda iawn!

(Gweler Dalen Ddisgyblion 4)

Drama - Gwaith Byrfyfyr : Ystafelloedd mewn Cyflwr

Mae'r ymarfer hwn yn datblygu'r syniadau yn y **Gystadleuaeth Siapiau** a medr fod yn ddoniol iawn.

Rhennwch y dosbarth yn grwpiau o ryw chwech. Maent yn cael defnyddio eu cyrff a dim byd arall. Rhoddwch stafell mewn ty neu adeilad cyhoeddus a chyflwr dynol penodol i bob grwp e.e.-

toiled mewn tafarn sy'n teimlo'n wael
llofft wedi blino
cegin sydd ar lwgu
ystafell fyw flin
campfa ddiog

Rhaid i'r grwp greu popeth a fyddai yn yr ystafell honno a rhaid i un person yn y grwp ei defnyddio e.e. plentyn yn mnd i'r toiled sâl yn y dafarn a cheisio ei ddefnyddio. Mae'n canfod bod y toiled yn cyfogi, y sinc yn ddigalon a'r sychwr dwylo, yn lle gwneud ei waith gyda brwdfrydedd, yn gweiddi.

Gofynnwch i'r grwpiau ddangos i'w gilydd a gofyn os medrent adnabod y cyflwr a'r ystafell yn gywir.

Drama - Gwaith Byrfyfyr : Y Ty Bwgan

Yn ***Gair am Air*** mae'r Supersonics yn mynd i dy lle credent mae bwgan. Maent yn canfod mai cartref hen wr, Reg, ydyw, ac nad oes ysbrydion yno.

Mae'r gwaith byrfyfyr hwn yn creu ty bwgan. Nid yw'r dosbarth yn cael defnyddio gwisgoedd, set na chelfi. Mae angen iddynt greu cadeiriau, drysau, clociau, lluniau ac ati - sy'n symud, gan fod ysrydion drwg yn byw ynddynt ac yn cydio mewn pobl. Bydd cerddoriaeth dychrynllyd a neuadd ysgol gyda rhywbeth dros y ffenestri, lle gellid defnyddio goleuadau neu ffaglau i greu awyrgylch, yn ddelfrydol.

Gellir gwneud y gwaith byrfyfyr hwn mewn nifer o wahanol ffyrdd:

1 - Mae'r dosbarth cyfan, gyda chyfarwyddyd yr athro/awes, yn creu'r ty bwgan, er mwyn arwain athro/awes arall o'i gwmpas.

2 - Mae'r dosbarth yn rhannu'n ddau grwp ac yn gweithio mewn mannau ar wahân, gan gymryd eu tro i berfformio, arwain y grwp arall o gwmpas y ty bwgan.

3 - Mae'r dosbarth yn creu gwaith byrfyfyr a ymarferwyd i ddangos i gynulleidfa, gyda phedwar disgybl yn chwarae rhan Sally, Kate, Maldwyn a Dyfrig, gan symud o gwmpas y ty bwgan.

Maes Astudiaeth 5 - Adeiladu Cymeriadau

Mae'r holl gymeriadau ar wahân i Sally, Kate, Maldwyn a Dyfrig yn ***Gair am Air*** naill ai yn cael eu disgrifio neu eu creu fel pypedau gan ddefnyddio dillad neu gelfi.

* Disgrifir Pete, sy'n rhedeg siop sgodyn a sglodion - Pete's Plaice - fel dyn gyda chynffon pysgodyn a dim coesau, *"Swimming in oil and grease and going to bed in battered pyjamas and salt and vinegar slippers."*

* Mae'r clepwragedd yn ddwy het gyda sgarff a dwy fasged.

* Mae Reg yn bâr o hen sgidiau, trowsus, côt a sgarff ar hanger a hen bêl droed fel pen.

Diben yr ymarferion canlynol yw cael y disgyblion i greu eu cymeriadau eu hunain yn y dull hwn.

Trafodaeth ac Ymarfer Ysgrifenedig:Rhannu syniadau

Ar ddalen o bapur siwgr, mae'r disgyblion yn nodi'r holl fathau o bobl a geir mewn tref, e.e. dyn llaeth, gwerth papurau newyddion, ffermwr, heddwas, mamau ifanc, hen ddynion ac ati.

Drama - Ymarfer: Datblygu Cymeriad

Yna rhaid i'r disgyblion ddewis, neu dyrennir cymeriad iddynt ei ddatblygu.

Rhoddwch hwy mewn **parau** i weithio ar un cymeriad, y mae'r ddau ohonynt yn ei chwarae, er mwyn rhannu syniadau a chynyddu hyder.

Rhoddwch wahanol eitemau o wisgoedd a chelfi iddynt a fyddai'n briodol i ddewis ohonynt.

Unwaith y maent wedi trafod eu cymeriad mewn parau, esboniwch iddynt eich bod eisiau iddynt wneud y cymeriad mor fawr ag y bo modd (fel cartwn bron) ac na ddylent boeni am berfformio mewn ffordd realistig.

Yna, fel parau o'r un math o gymeriad, ewch â hwy trwy'r ymarfer canlynol:

1 - Yn eu gwisg, gyda'r celfi, gofynnwch iddynt gerdded o amgylch yr ystafell fel hwy eu hunain i ddechrau, ac yna dywedwch bod eu cymeriad yn dringo i lawr eu corff yn raddol o'u wynebau yr holl ffordd i'w bysedd traed.

2 - Gofynnwch iddynt feddwl pa mor araf neu gyflym y mae eu cymeriad yn cerdded, a newid eu cam yn briodol (gallai defnyddio metronom gyda rhythm sylfaenol fod yn ddefnyddiol)

3 - Gofynnwch iddynt ddewis un rhan o gorff eu cymeriad sy'n **ganol** iddynt h.y. mae'r darn yn eu harwain o gwmpas / dyna'r rhan sy'n eu gyrru e.e. efallai y byddai hen glepwraig yn cael ei harwain gan ei thrwyn, plentyn drwg gan ei fysedd bysneslyd, heddwas gan ei draed trymion ac ati.

4 - Yn olaf, wrth iddynt symud o gwmpas gofynnwch iddynt gyfarch ei gilydd. Gofynnwch iddynt feddwl os oes unrhyw gymeriadau y maent yn eu hoffi yn fwy na'r lleill? A oes unrhyw gymeriadau sy'n peri ofn iddynt?

5 - Rhoddwch y gorau i'r ymarfer a gweud wrthynt am fod yn hwy eu hunain unwaith eto. Trafodwch.

Drama - Gwaith Byrfyfyr: Parti Milflwyddiant y Dref

Paratowch le gyda byrddau o gwmpas y tu allan, fel pe baent yn llawn bwyd a diod, a sicrhau bod cerddoriaeth parti yn barod. Nodwch lle mae 'drws' clir ar gyfer cael mynediad i'r parti.

Esboniwch bod pâr o gymeriadau yn mynd i gynnal parti Milflwyddiant y dref. Bydd gweddill y cymeriadau yn cyrraedd mewn parau, pan gânt orchymyn i wneud hynny. Rhaid iddynt oll gymysgu. Bydd 'countdown' ar gyfer hanner nos a rhaid iddynt ddymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i'w gilydd.

Ar ôl dewis y ddau sy'n cynnal y parti, cychwynnwch yr olygfa. Rhoddwch giw i fynediad pob cymeriad, un ar y tro, a rhoi munud neu ddau iddynt cyn cychwyn cyfrif. Yn fuan ar ôl 'Blwyddyn Newydd Dda', rhoddwch y gorau i'r olygfa.

Siaradwch am beth a weithiodd yn dda, gan ddewis pethau penodol.

Drama - Ymarfer : Cymeriad ‘Sedd Boeth'

* I ddatblygu eu cymeriadau ymhellach fyth, gofynnwch i nifer o'r disgyblion fynd i'w rôl, un ar y tro, ac eistedd ar gadair lle gall gweddill y dosbarth ofyn cwestiynau iddynt.

* Efallai y byddai hefyd yn ddiddorol rhoi cynnig ar y dechneg hon gan ddefnyddio'r pedwar plentyn o ***Gair am Air*** . Rhoddwch rôl Sally, Kate, Maldwyn a Dyfrig i bedwar aelod o'r dosbarth. Gofynnwch iddynt ddychmygu eu bod wedi clywed pobl y dref yn siarad am 'y peth ofnadwy' a ddigwyddodd i Reg. Bob yn un, mae pob cymeriad yn eistedd ar gadair a gofynnir cwestiynau iddynt gan weddill y dosbarth ynglyn â sut maent yn teimlo am yr hyn a ddigwyddodd.

Gair am Air: Nodiadau Cymeriad

Sally - Hi yw arweinydd y gang o safbwynt ei dychymyg a'i rôl hi yw meddwl am gemau ffantasi. Nid yw'n medru darllen yn dda iawn (awgrymir ei bod yn ddyslecsig), ond mae'n cadw llyfr cyfrinachol ac mae'n ysgrifennu cerddi ynddo. Ei syniad hi oedd mynd i'r hen dy, gan eu bod wedi blino chwarae'r un hen gemau. Mae'n berson sensitif iawn, ac mae Dyfrig yn pigo arni yn aml. Mae'n byw gyda'i thad, gan fod ei mam wedi 'mynd' ac mae'n ei cholli. Maldwyn yw ei brawd. Fel oedolyn, mae wedi goresgyn ei hanawsterau gyda darllen ac mae'n athrawes yn y dref.

Kate - Mae hi yn aelod disglair o'r grwp, ac nid yw'n broblem iddi gymryd cyfrifoldeb am 'ddweud' pan fo'n dewis y 'tocyn buddugol'. Mae'n dod o gartref cysurus, os yn un gor-warchodol. Hi yw ffrind gorau Sally ac mae'n deyrngar iawn iddi. Mae'n medru amddiffyn ei hunan. Fel oedolyn, mae'n dal i fyw yn y dref, ac mae'n trin gwallt, gyda dau o blant ac un ar y ffordd.

Maldwyn - Mae'n mwynhau hwyl a gêm dda, yn enwedig os yw'n cynnwys *Starwars*. Ei arfer mwyaf diflas yw copio geiriau pobl eraill mewn llais gwirion. Mae ganddo obsesiwn gyda hen gar ym modurdy ei dad. Mae'n byw gyda'i dad gan fod ei fam wedi 'mynd'. Roedd yn amharod mynd i'r hen dy i ddechrau, gan ddweud fod ganddo gur pen. Ef yw brawd Sally ac mae'n warchodol iawn tuag ati. Fel oedolyn mae'n byw yn y dref ac yn ddi-waith, yn dal i freuddwydio am atgyweirio'r hen gar.

Dyfrig - Ef yw'r 'un dyn bach ar ôl' yn y gang ac mae'n aelod dim ond oherwydd ei fod yn gyfaill i Kate. Caiff ei bryfocio gan y lleill gan fod yn rhaid iddo fynd gartref yn gynnar, ac oherwydd ei fod yn hwyr o hyd. Mae'n dod o gartref cysurus iawn. Gall fod yn fentrus iawn ond mae ganddo ochr greulon - mae'n bwlio Sally yn aml oherwydd na fedr ddarllen yn dda iawn. Fel oedolyn mae wedi gadael y dref ac yn llwyddiannus iawn yn Llundain.

Gwaith Ysgrifnedig: Proffil Cymeriadau

Estyniad o'r ymarfer **Sedd Boeth.** Mae'r disgyblion yn darlunio eu cymeriad ac ateb y cwestiynau ar y ddalen **Proffil Cymeriad** fel eu cymeriad hwy.

Gallent hefyd ateb y cwestiynau gan ddychmygu mai hwy yw un o'r cymeriadau o ***Gair am Air***.

(Gweler Dalen Ddisgyblion 5)

Yn arwain ymlaen o hyn, gallai'r disgyblion gwblhau'r **gerdd Rwyf I** (gweler **Maes Astudiaeth 6**) fel eu cymeriad hwy neu un o'r cymeriadau o ***Gair am Air***.

Drama - Ymarfer: Datblygu Cymeriad Pypedau

Mae'r disgyblion, yn eu parau, yn dychwelyd i'w cymeriad a rhaid iddynt nawr ystyried ffordd o ganfod ei hanfod.

Rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd i greu un fersiwn 'pyped' o'u cymeriad gan ddefnyddio'r gwisgoedd a'r celfi yn unig ac un o'r lleisiau a ddatblygwyd, fel y clepwragedd neu Reg yn ***Gair am Air.***. Mae angen i'r ddau ddisgybl chwarae rhan mewn animeiddio'r cymeriad.

Unwaith y maent wedi penderfynu sut maent yn mynd i wneud hyn, dodwch ddau bâr gyda'i gilydd a gofyn iddynt ddatblygu **golygfa sgwrs fer.**

Dangoswch y rhain yn ôl i weddill y dosbarth.

Gwaith Byrfyfyr : Parti Milflwyddiant Pypedau'r Dref

Yn union yr un peth ag o'r blaen, ond wedi ei berfformio gyda'r pypedau y tro hwn.

Maes Astudiaeth 6 - Ysgrifennu Barddoniaeth

Gwaith Ysgrifenedig : Cerdd 'Rwyf I'

Mae hwn yn ddull syml iawn ac effeithiol o greu barddoniaeth bersonol. Mae'n archwilio'r syniad ein bod yn datgelu rhywbeth ynglyn â'n personoliaethau. Mae'r disgyblion yn ateb y cwestiynau ar y daflen gyntaf e.e.

Beth yw eich hoff liw? Leilac
Pam? Oherwydd ei fod yn gynnes a meddal

Beth yw eich hoff dywydd? Glaw
Pam? Oherwydd ei fod yn gwneud popeth yn ffres

Beth yw eich hoff fwyd? Pizza
Pam? Oherwydd ei fod yn boitshlyd a blasus

Beth yw eich hoff anifail? Teigr
Pam? Oherwydd ei fod yn hardd a pheryglus

(Gweler Dalen Ddisgyblion 6a)

Yna maent yn cymryd eu hatebion a'u dodi yn y mannau ar yr ail ddalen, gan greu eu cerdd, e.e. -

Rwyf yn leilac
Cynnes a meddal
Rwyf yn law
Yn gwneud popeth yn ffres
Rwyf yn pizza
Poitshlyd a blasus
Rwyf yn deigr
Hardd a pheryglus
Rwyf

(Gweler Dalen Ddisgyblion 6b)
Ewch trwy gerddi'r dosbarth, fesul un, a gweld os medrent ddyfalu pwy yw'r awdur.

Gellir troi'r cerddi yn bosteri, a'u haddurno gyda'r lliw a'r delweddau a ddefnyddiwyd ynddynt.

Gwaith Ysgrifenedig: Cerdd 'Rydym Ni'

Datblygwch y syniad hwn a chreu cerdd dosbarth cyfan, neu gerdd ysgol gyfan hyd yn oed.

Gwaith Ysgrifenedig: Cerdd Acrostig

Mae'r disgyblion yn cymryd eu henwau ac ysgrifennu pob llythyren i lawr ochr y dudalen. Maent yna'n creu cerdd amdanynt eu hunain a all ddefnyddio odl a rhythm os hoffent e.e.

Cerdd Sally

Summer was long with the Supersonics
Adventure and fun for my friends and me
Laughing with Kate and winding up Malcolm
Longing for Dyfrig to just let me be
Yesterday's there - I close my eyes and see

Maes Astudiaeth 7 - Straeon Byrion

1 - Defnyddiwch y digwyddiadau yn y ddrama a'u dodi ar ffurf stori fer.

2 - Crewch antur arall ar gyfer Sally, Kate, Maldwyn a Dyfrig yn ystod yr haf hwnnw. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r cymeriadau eraill a grybwyllwyd ganddynt - Pete sy'n rhedeg y siop sgodyn a sglodion - Pete's Plaice, y clepwragedd a Reg Owen.

3 - Ysgrifennwch stori fer o'r enw **Yr Her** sy'n cychwyn yn gyffrous ond sydd â chanlyniadau negyddol.

Maes Astudiaeth 8 - Siarad Corawl

Mae siarad corawl / rhannu dialog yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol iawn yn ***Gair am Air***. Gall ***The Street Collage Poem*** a'r darn o ***Under Milk Wood*** arwain i'w gilydd a dangos posibiliadau iaith gyfoethog i'r disgyblion.

Darllen a Pherfformiad: *Cerdd Collage y Stryd*

Rhennwch y gerdd rhwng y dosbarth, gan ei nodi gyda geiriau neu linellau allweddol wedi eu tanlinellu i'w hyngan gan bawb. Gellid hefyd ei pherfformio yn llac, fel yn y sioe. Sicrhewch bod y dosbarth yn ymwybodol o'r rhythm, efallai trwy ddefnyddio offerynnau taro.

(Gweler Dalen Ddisgyblion 8a)

Gwaith Ysgrifenedig: Rhestri Geirau

Yn arwain o'r gerdd hon, medr disgyblion archwilio **cyflafareddiad**, gan ysgrifennu rhestr o eiriau sy'n cyflafareddu.

Gellir gwneud yr un peth gyda metaffor a chyffelybiaeth yn *The Street Collage Poem.*

Darllen a Pherfformio: *Dan y Wenallt*

Y man cychwyn ar gyfer ***Gair am Air*** oedd syniad o ***Under Milk Wood*** ar gyfer plant, er mwyn eu cyflwyno i harddwch iaith, ond dodi traethiad ynddo nad yw yn *Under Milk Wood.* Yn ddiddorol, mae dechrau *Under Milk Wood* yn ymddangos fel pe bai'n cario 'mlaen lle mae *The Street Collage Poem* yn gorffen.

(Gweler Dalen Ddisgyblion 8b)

Os ydych eisiau datblygu hwn yn ddarn siarad corawl, bydd angen ei ddarllen iddynt yn gyntaf a'i archwilio, gan ei fod yn ddarn eithaf anodd i blant.

Esboniwch i'r dosbarth bod Dylan Thomas yn hoffi chwarae gyda geiriau i wneud brawddegau sy'n swnio'n ddiddorol, heb - o angenrheidrwydd - wneud synnwyr perffaith. Er enghraifft, mae'n ysgrifennu:

"Y c[n mewn buarthau llaith"

Mae gan gwn drwynau gwlyb, nid iardiau, ond roedd Dylan Thomas yn credu nad oedd "C[n trwynau gwlyb yn y buarthau" yn swnio gystal.

Gwaith ysgrifenedig: Chwarae â Geiriau

Ewch trwy'r testun a thanlinellu unrhyw eiriau neu ymadroddion sy'n chwarae gyda geiriau yn yr un modd â *'The dogs in the wetnosed yards'.*

Cymharwch restri.

Darllen a Pherfformio: *The Computer's First Christmas Card*

Mae'r gerdd hon yn archwilio chwarae gyda geiriau ymhellach fyth. Byddai hefyd yn ddarn hwyliog ar gyfer siarad corawl.

(Gweler Dalen Ddisgyblion 8c)

Maes Astudiaeth 9 - Darllen

Project Ysgol: Darllen Cynllun 'Bydis'

Parwch ddarllenwyr ym Mlwyddyn 5 a 6 gyda phlant yn is i lawr yr ysgol er mwyn eu helpu gyda'u darllen neu i ddarllen iddynt.

Gwaith Ysgrifenedig: Adolygu Llyfr

Gallai'r dasg hon fod yn unrhyw beth o ochr A4 i broject estynedig gyda darluniau.

Mae angen iddynt adrodd y stori, siarad am y cymeriadau, meges y llyfr a pham iddynt ei hoffi.

Gwaith Ysgrifenedig: Hoff Gymeriad

Gofynnwch i'r disgyblion benderfynu pwy a fyddent pe cawsant ddewis unrhyw gymeriad mewn unrhyw lyfr, neu ffilm, rhaglen deledu neu gêm gyfrifiadurol.

Mae angen iddynt ddisgrifio'r cymeriad yn fanwl a rhoi rhesymau eglur yn nodi yr hoffent fod y cymeriad hwnnw. Medrent gynnwys darlun neu lun o gylchgrawn o'r cymeriad.

Medrent hefyd ddefnyddio'r **ddalen proffil cymeriad (*Gweler Dalen Ddisgyblion 5)***

FANDALIAID AFIACH YN YMOSOD AR BENSIYNWR

Torodd nifer o hwliganiaid ifanc i dy pensiynwr ac ymosod yn dreisgar arno gan ei adael wedi ei guro ar waelod y grisiau. Mae'r heddlu wedi chwilio'r ty am ôl bysedd ond hyd yma nid oes ganddynt unrhyw syniadau.

"Mae'r gymdogaeth yn helpu" meddai cymydog, "rydym wedi trefnu casgliad ac fe wnawn gartref Reg yn gysurus a diogel iddo. Dylai pwy bynnag a wnaeth hyn fod â chywilydd." Mae Mr Jones, sy'n 83 ac a fu'n ymladd yn y rhyfel diwethaf, yn gwella, ond wedi cael ysgytwad.

Gwaith ysgrifenedig:

1 - Beth yw amcan yr adroddiad hwn? Sut mae i fod i wneud i'r darllenydd deimlo?

2 - Ewch trwy'r adroddiad yn y papur newydd a nodi'r holl eiriau a ddefnyddiwyd i geisio gwneud y digwyddiad mor ddramatig ag y bo modd.

3 - Ysgrifennwch adroddiad o'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd.

4 - Cymharwch yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi yn eich adroddiad gonest gyda'r adroddiad yn y papur e.e. mae'r papur newydd yn dweud **torri i mewn** i mewn i'r ty ond mae Kate yn nodi fod y drws ar agor, ac felly **cerddasant** i mewn.

4 - Ysgrifennwch gofnod dyddiadur Kate ar gyfer y noson pan aeth y Supersonics i dy Reg. Mae ysgrifennu dyddiadur yn gwbl wahanol, mae'n adroddiad personol iawn. Mae'n cynnwys teimladau a meddyliau nad yw'r awdur o angenrheidrwydd eisiau eu rhannu gydag unrhyw un arall. Mae angen i chi fynd i mewn i feddwl Kate a dychmygu ei safbwynt hi. Cofiwch - y noson pan ddigwyddodd hyn nid oedd y Supersonics yn sylweddoli bod Reg wedi brifo mewn unrhyw ffordd.

Darn o
Breuddwyd Nos {yl Ifan
Fersiwn Gymraeg gan Gwyn Thomas

Act 1 Golygfa 2

Yr olygfa hon yw'r tro cyntaf i ni gyfarfod grwp o ddynion a elwir y 'Mechanicals'. Maent oll yn weithwyr yn Athen ac ar fin cychwyn ymarfer drama fer ***Pyramus and Thisbe*** i'w pherfformio adeg priodas Theseus, Dug Athen a Hippolyta, Brenhines yr Amasoniaid. Mae'n bwysig cofio nad ydynt yn actorion ac mae hyn yn gwneud eu perfformiadau yn ddoniol dros ben, er nad dyna yw eu diben.

Cymeriadau:
Peter Quince - saer
Nick Bottom - gweydd
Francis Flute - trwsiwr megin
Tom Snout - tincer
Snug - saer coed
Robin Starveling - teiliwr

Daw'r holl gymeriadau i mewn

QUINCE: Ydi pawb otr cwmni yma?

BOTTOM: Byddai'n well iti eu galw'n gyffredinol, un ac un, yn ol y sgript.

QUINCE: Dyma sgrol o enwau pawb o'r dynion, a ystyrir yn addas, trwy Athens i gyd, i actio yn ein hanterliwt gerbron y Dug atr Dduges, ar ddydd a noson ei briodas.

BOTTOM: Yn gyntaf, 'rhen Peter Quince, dwed am be mae'r ddrama'n sôn; yna darllena enwau yr actorion; ac felly dod i ben.

QUINCE: Cato pawb, ein drama ydi, "Comedi fwyaf adfydus, a marwolaeth greulonaf Pyramus a Thisby".

BOTTOM: Darn da iawn o waith, yn wir i chi, ac un diddan. Rwan, 'rhen Peter Quince, galwa enwau yr actorion odd'ar y sgrol. Fechgyn, gwahanwch.

QUINCE: Atebwch fel rydw i'n eich galw chi. Nick Bottom, y gwehydd.

BOTTOM: Barod. Dwed be ydi fy rhan i, a dos yn dy flaen.

QUINCE: Rwyt ti, Nick Bottom, wedi cael dy roi i lawr ar gyfer Pyramus.

BOTTOM: Be ydi Pyramus? Carwr, ynteu teyrn?

QUINCE: Carwr sy'n ei ladd ei hun, yn ddewr iawn, oherwydd cariad.

BOTTOM: Bydd gofyn am dipyn o ddagrau wrth berfformio hwn'na'n dda: os gwna' i'r rhan, rhaid i'r gynulleidfa 'morol am eu llygaid. Mi gynhyrfa' i stormydd, mi alarnada'-i i gryn bwrpas. At y lleill - eto rnae gen i fwy o osgo at y teyrn. Mi allwn i chwarae Ercles yn rhagorol, neu ran i rantio, i wneud i bawb hollti.

Y cynddeiriog greigiau
Â iasol ddirgryniadau
A ddistrywia gloeau
Pyrth carcharau;
A bydd y Phibbus-gerbyd
Yn sgleino o bell yn enbyd
Gan wneuthur a dymchwelyd
Yr ynfyd Ffodiau.

Roedd hyn'na'n aruchel! Rwan enwa weddill y chwaraewyr. Dyma arddull Ercles, arddull teyrn. Mae carwr yn fwy galarnadus.

QUINCE: Francis Flute, y trwsiwr meginau.

FLUTE: Yma, Peter Quince.

QUINCE: Rhaid i ti gyrnryd rhan Thisby.

FLUTE: Be ydi Thisby? Marchog crwydrad?

QUINCE: Hon ydi'r arglwyddes y mae'n rhaid i Pyrarnus ei charu.

FLUTE: Na, wir, paid â gofyn i mi chwarae gwraig. Mae gen i farf yn dod.

QUINCE: 'Dydi hynny o ddim gwahaniaeth. Mi chwaraei hi mewn mwgwd, ac mi gei di siarad mor fain ag y mynni di.

BOTTOM: Os galla' i guddio 'ngwyneb, gad i mi chwarae Thisby hefyd. Mi siarada' i mewn llais bach ofnadwy, "Thisne, Thisne!" - "Ah, Pyramus, fy annwyl gariad! Dy Thisby annwyl, ac annwyl wreigdda!"

QUINCE: Na, na; rhaid i ti chwarae Pyramus; a thithau, Flute, ran Thisby.

BOTTOM: Wel, ymlaen.

QUINCE: Robin Starveling, y teiliwr.

STARVELING: Yma, Peter Quince.

QUINCE: Robin Starveling, rhaid i ti chwarae mam Thisby. Tom Snout, y tincer.

SNOUT: Yma, Peter Quince.

QUINCE: Ti, tad Pyramus; finnau, tad Thisby; Snug, y saer dodrefn, rhan y llew. A dyma, gobeithio, ddrama wedi'i threfnu.

SNUG: Ydi rhan y llew gen ti, wedi'i sgwennu? Da thi, os ydi hi, rho hi imi, gan 'mod i'n ara'n dysgu.

QUINCE: Mi gei di wneud y cwbwl yn fyrfyfyr, 'chos dim ond rhuo ydi-hi.

BOTTOM: Gad i mi chwarae rhan y llew hefyd. Mi rua' I fel y bydd yn lles i galon unrhyw un I 'nghlywed i. Mi rua' i, fel y gwna'-i i'r Dug ddweud, "Gadwch iddo ruo eto, gadwch iddo ruo eto!"

QUINCE: Ac fe wnaet ti hyn yn rhy ofnadwy, fe fyddet ti'n dychryn y Dduges a'r arglwyddesau, nes y bydden' nhw'n sgrechian; a byddai hynny'n ddigon i'n crogi ni i gyd.

PAWB: Ein crogi ni i gyd, pob mab mam.

BOTTOM: Rydw i'n cydnabod, ffrindiau, pe baech chitn dychryn yr arglwyddesau am eu hoedl, fyddai ganddyn' nhw ddim dewis ond ein crogi ni: ond mi wna' i *waethygu'n* llais fel y bydda' i'n rhuo mor dyner ag unrhyw *g'lomen-sugno*; mi rua' i fel 'tawn i'n unrhyw eos.

QUINCE: Chei di ddim chwarae unrhyw ran ond Pyramus; am fod Pyramus yn ddyn a chanddo wyneb addfwyn; yn [r propor fel un weli di ar ddydd o haf; g[r hyfryd, gwr mwyaf bonheddig: felly rhaid i ti chwarae Pyramus.

BOTTOM: Wel mi wna'-i ymgymryd ag o. Pa farf a weddai orau imi chwarae'r rhan?

QUINCE: Wel, be fyw fynni di.

BOTTOM: Mi wna' i'r gwaith un ai gyda barf liw gwellt, eich barf oren-tywyll chi, eich barf borffor-

-ei-graen chi, neu eich barf liw coron
Ffrengig chi, eich barf berffaith felen.

QUINCE: 'Does gan rai o'ch corunau Ffrengig chi ddim gwallt o gwbwl, ac felly mi chwaraei di yn llyfn dy wyneb. Ond, feistri, dyma'ch rhannau; ac rydw i i fod i ymbil arnoch, gofyn ichi, a dymuno ichi eu dysgu nhw erbyn nos yfory; a chwrdd â mi yng nghoed y plas, rhyw filltir y tu allan i'r dref, yng ngolau'r lloer. Mi wnawn ni ymarfer yno, achos pe baem ni'n cyfarfod yn y ddinas, fe fydd gennym ni gwmni i'n canlyn ni, ac fe ddon'-nhw i wybod ein cynlluniau. Yn y cyfamser mi wna' i restr o'r celfi, y math y bydd eu hangen nhw ar gyfer ein drama. Da chi, peidiwch â'm siomi fi.

BOTTOM: Fe wnawn ni gyfarfod, ac yno mi wnawn ni ymarfer yn y modd mwya' *anweddus* a dewr. Cym'rwch drafferth; byddwch berffaith: adieu.

QUINCE: Mi wnawn ni gyfarfod wrth goeden dderw'r Dug.

BOTTOM: Dyna ddigon: cadw'n gair neu haeddu c'wilydd.

Exeunt

Cwestiynau ar yr olygfa:

1 - Pwy yw'r cymeriad mwyaf rhadlon yn yr olygfa?

2 - Pa gymeriad arall yn yr olygfa yw'r unig un sy'n medru cadw trefn ar Bottom?

3 - Pa gymeriadau yn y ddrama y dywed Nick Bottom y mae eisiau eu chwarae?

4 - Sut fath o gymeriad yr hoffai Nick Bottom i Pyramus fod?

5 - Pam nad yw Flute eisiau chawrae Thisbe, sy'n ddynes?

6 - Pam fo Flute yn gofyn am sgript?

7 - Sut mae Peter Quince yn argyhoeddi Nick Bottom, yn y diwedd, i chwarae rhan Pyramus?

Nursery Chairs

gan A A Milne

One of the chairs is South America,
One of the chairs is a ship at sea,
One is a cage for a great big lion,
And one is a chair for Me.

The First Chair
When I go up the Amazon,
I stop at night and fire a gun
To call my faithful band.
And people come in twos and threes,
Come silently between the trees,
And wait for me to land.
And if I do not want to play
With anybody else today,
I simply wave my hand.
And then they turn and go away -
They always understand.

The Second Chair
I'm a great big lion in my cage,
And I often frighten Mummy with a roar.
Then I hold her very tight, and
Tell her not to be so frightened -
And she doesn't be so frightened any more.

The Third Chair
When I am in my ship, I see
The other ships go sailing by.
A sailor leans and calls to me
As his tall ship goes sailing by.
Across the sea he leans to me,
Above the wind I hear him cry:
"Is this the way to Round-the-World"?
He calls as he goes by.

The Fourth Chair
Whenever I sit in a chair
For breakfast or dinner or tea,
I try to pretend that it's *my* chair,
In charge of all that I see.

Shall I go off to South America?
Shall I put out in my ship to sea?
Or get in my cage and be lions and tigers?
Or - shall I be only Me?

Darn allan o *The Bed Book*

gan Sylvia Plath

Beds come in all sizes -
Single or double,
Cot-size or cradle,
King-size or trundle.

Most Beds are Beds
For sleeping or resting,
But the *best* Beds are much
More interesting!

Not just a white little
Tucked-in-tight little
Nighty-night little
Turn-out-the-light little
Bed -

Instead
A Bed for Fishing,
A Bed for Cats,
A Bed for a Troupe of
Acrobats.

The *right* sort of Bed
(If you see what I mean)
Is a Bed that might
Be a Submarine

Nosing through water
Clear and green,
Silver and glittery
As a sardine

Or a Jet-Propelled Bed
For visiting Mars
With mosquito nets
For the shooting stars ...

The Word Party

gan Richard Edwards

Loving words clutch crimson roses,
Rude words sniff and pick their noses,
Sly words come dressed up as foxes,
Short words stand on cardboard boxes,
Common words tell jokes and gabble,
Complicated words play Scrabble,
Swear words stamp around and shout,
Hard words stare each other out,
Foreign words look lost and shrug,
Careless words trip on the rug,
Long words slouch with stooping shoulders,
Code words carry secret folders,
Silly words flick rubber bands,
Hyphenated words hold hands,
Strong words show off, bending metal,
Sweet words call each other 'petal',
Small words yawn and suck their thumbs
Till at last the morning comes.
Kind words give out farewell posies ...

Snap! The dictionary closes.

Proffil Cymeriad

Beth yw eich enw llawn?

Beth yw eich hoedran?

Lle rydych yn byw?

Pwy yw eich teulu?

A oes gennych swydd?

Beth yw eich hoff liw?

Beth yw eich hoff dywydd?

Beth yw eich hoff anifail?

Beth yw eich hoff air?

Beth yw eich syniad chi o gael hwyl?

A ydych erioed wedi bod mewn gwlad arall?

Beth yw eich hoff ddilledyn?

Beth sy'n ddiflas i chi?

Pa fath o gerddoriaeth ydych chi'n gwrando arno?

Pwy yw eich ffrind agosaf?

Beth ydych yn ei wneud ar benwythnosau?

A ydych erioed wedi gwneud rhywbeth a aeth â chi i drwbwl?

Beth ydych yn ei ofni?

Bet yw eich dymuniad cyfrinachol?

Cwestiynau Cerdd
'Rwyf I'

Beth yw eich hoff liw?

Pam?

Beth yw eich hoff dywydd?

Pam?

Beth yw eich hoff fwyd?

Pam?

Beth yw eich hoff anifail?

Pam?

'Rwyf I'

cerdd gan

Rwyf i

Rwyf i

Rwyf i

Rwyf i

Rwyf.

Maes Astudiaeth - Siarad Corawl **Dalen Ddisgyblion 8a**

Cerdd Collage y Stryd

gan Tim Baker

Tre ni – am wn i – lle cyffredin di-nôd
A phawb yn gwbod pwy 'di pwy wrth fynd a dod
Helo Mrs Parry !
Bore da Mr Hughes !

Dynion a gwragedd yn ymlwybro lawr y stryd
Efo bagia trwm o siopa – special offers i gyd
Yn aros – stop
I ga'l chop-san clep clep
Am y sbwriel, am y tywydd, am y prisiau yn y siop
Am y plant, am y glaw, am y baw ar y step

Lle fel unrhyw le arall.
Biliau coch
Trydan – ffôn – a nwy
Fel adar o'r unlliw yn hedfan drwy'r plwy
Drwy'r drysau i lanio ar garped y llawr
Faint ! Amhosib ! Choelia'i fawr!

Tadau efo strimmers yn torri gwair a cholli gwallt
Hen ddynion hefo zimmers, hen wragedd a ffyn
Eu llygaid yn llwydo a'u gwallt yn wyn
A mamau'n straffaglu 'fo babis a napis
A bygis a dymis a "lle mae'r pram !!?"
A hogyn s'yn gofyn a gofyn a gofyn
bob pum munud "Pam mam ? Pam ?"
A dillad ar y lein
A llestri ddim yn lan
A car yn y garej
Dim glo ar y tân
Sebon yn y bath
Gwrthod mynd i'r gwely
Sebon yn y sinc
Sebon ar y teli
Ever-ready oven-ready syrffio ar y wê
Cinio yn y meicrodon a chips i dê.

Taid, a'i atgofion, "hapus a thrist"
Dan glo yn yr atic, ieuenctid mewn cist
A Nain "wedi blino ar swn y byd
Dim ond potel dwr poeth sy'n 'y nghadw i'n glud"
A bob Nadolig mae'r tadau'n gobeithio
Bydd goleuadau'r goeden – am unwaith – yn gweithio

Mrs Morgan
Mam i dri

Y ty'n llawn plant, dau gath, dau gi
Y gegin fel syrcas, yr ardd fel sw
A pobol yn galw i ddeud cwtshi cw
"Yndydyn nhw'n ddel" a "si-hei-lw"
Ond fi sy'n gorfod eu magu nhw

(Si hei lwli mabi/Dwy law yn erfyn...)

Eglwys a capel, aelwydydd y fro
Yn llawn o emynau a phobl un tro
Drysau ar agor : ond lle mae eu cân ?
Ydi pawb 'di anghofio amdanon ni'n lan ?
Dim cwrdd yn y bore
Dim canu'n yr hwyr
Ydi pawb 'di anghofio amdano ni'n llwyr ?

Bip bip !
Dim parcio os gwelwch yn dda!!!!
Bip bip !
Dim parcio – gaea neu ha' !

Tre fel unrhyw dre arall – tre ni
Strydoedd fel unrhyw stryd arall – am wn i
Yn hen ac ifanc
Cyfoethog a thlawd
Dan y coed
Dan y doctor
Yn y llys
Dan y fawd

Glaw drwy'r flwyddyn, ella wythnos yn Sbaen
A swper ar y soffa 'fo'r teledu ymlaen

A pan mae'r nos yn ymledu ym machlud y stryd
Mae pawb yn mynd i'w gwely'n deud Nos Da hen fyd.

Maes Astudiaeth - Siarad Corawl **Dalen Ddisgyblion 8b**

Agoriad *Under Milk Wood*

gan Dylan Thomas

Llais

Yn y dechrau'n deg
mae hi'n nos o Wanwyn mewn pentre bach
heb na lleuad na seren i oleuo'r ffurfafen,
nac untroed i oedi'n y strydoedd;
ac mae gallt wargrwm y cwningod a'r cariadon
fel ar herc anweledig i lawr at y mor pygddu,
dudew fel y fagddu,
lle mae'r cychod pysgota'n hen aflonyddu.
Mae'r holl dai yma'n ddall fel gwahaddod,
er fe wêl y wahadden yn burion
heno'n ei glynnoedd cul clòs,
neu'n ddall fel 'rhen Gapten fan draw'n cyfeillachu
a'r pwmp a'r cloc a'r Neuadd weddw a'r siopau'n eu
galar.
Ac fe gaewyd llen pob llygad tan amrannau trwm y
nos.

Ust, mae'r plantos yn cysgu,
a ffarmwr pensiynwr masnachwr pysgotwr posman,
crydd sgwlyn meddwyn tafarnwr teiliwr pregethwr
plisman,
a'r fenyw ffansi, a'r fenyw deidi.
Hen ferchetach mewn gwelyau moethus
yn edrych modrwyau, yn dewis tr[so,
ac yn llithro'n llawen hyd eil organyddol y gelltydd
a mil o fagïod yn forynion iddynt,
a'r bechgynnach yn breuddwydio'n gellweirus
wrth farchogaeth y paith ar fwng y nos
neu fordwyo brig eithaf y don.
Ceffylau yng nghwsg yn y caeau fel delwau dur,
a gwartheg yn cil-gysgu'n y beudy a ch[n mewn
buarthau llaith
a'r cathod hwythau'n cael napyn mewn cornel
di-grwndi
neu'n sleifio'n un llinyn o do i do fel deryn mewn
cwmwl.

Gellwch glywed y gwlith yn diferu
a chlywed y pentre'n anadlu.
A'ch llygaid chwithau'n unig all weld
y pentre pygddu'n cysgu'n drwm.
A'ch clustiau chwithau'n unig a glyw
yr anweledig seren wib,
a chyffroi o wyneb crych yr henfor
ym more bach yr awr dywyllaf
lle mae Aberystwyth a Chwrlip a Chardi a Charon

Sansibâr a Rhiannon a Seren Tre-saith
yn hepian wrth angor.

Clywch. Y nos sy'n ymsymud drwy'r strydoedd.
Clywch ymdeithgan urddasol y gwynt
yn Heol y Brenin a Lôn Cregyn,
a'r halen yn drwch ar ei alaw.
Clywch. Y borfa sy'n prifio ar Fryncyn Llaregyb,
gwlithyn yn cronni a seren yn chwalu
ac adar yn cysgu'n y Wenallt.

Clywch. Mae'r nos yn ymgynnull i'r capel anwydog
i bwnio emyn ar emyn
mewn bonet a brotsh a ffrog sidan fel brân,
peswch fel geifr a sugno mintos
a chyntun bach esmwyth drwy'r haleliwia;
nos yn y dafarn mor dawel a domino,
yn llofftydd Wil Llath fel llygod mewn menig,
yn ffwrn Dai Bara'n tasgu fel fflwr du.
Ac o echnos i neithiwr, ac o neithiwr i heno
i lawr Lôn Asynnod fe ddaw'r nos yma i drotian
hyd y llawr cobl â gwymon ar ei charnau,
heibio i'r pot blodyn a'r adnod a'r tlysau
a'r llun o waith llaw a'r sgiw a'r seld a'r spaniel
tsheina, a'r organ fach.
Ac maen nhw'r plantos yn ddiddos.

Edrychwch. Y nos dywysogaidd
sy'n ymdeithio'n falch rhwng ceirios Heol y Brenin,
a menig am ddwylo dwys-wlithog plethedig ei
wyntoedd
ym mynwent Bethesda; yn twmblo wrth dafarn
'Y Morwr'.

Mae amser yn cerdded. Clywch.
Ddoe heddiw ac yfory a threnydd a thradwy.
Clywch gerdded traed amser.
Dewch yn nes nawr.

Maes Astudiaeth - Siarad Corawl **Dalen Ddisgyblion 8c**

The Computer's First Christmas Card

gan Edwin Morgan

jollymerry
hollyberry
jollyberry
merryholly
happyjolly
jollyjelly
jellybelly
bellymerry
hollyheppy
jollyMolly
marryJerry
merryHarry
happyBarry
heppyJarry
boppyheppy
berryjorry
jorryjolly
moppyjelly
Mollymerry
Jerryjolly
bellyboppy
jorryhoppy
hollymoppy
Barrymerry
Jarryhappy
happyboppy
bobbyjolly
jollymerry
merrymerry
merrymerry
merryChris
ammerryasa
Chrismerry
asMERRYCHR
YSANTHEMUM

Daearyddiaeth

Mae'r ddrama yn **Gair am Air** wedi ei ganoli o amgylch tref gynhenid y cymeriad ac fe'i dyfeisiwyd mewn modd a fyddai'n adnabyddus i'r mwyafrif llethol.

Maes Astudiaeth 10 - Mapiau

Llunio Mapiau: Ein Tref Ni

Gan ddefnyddio mapiau neu eu cof, mae'r disgyblion yn creu - naill ai fel dosbarth neu'n unigol - fap o ardal eu tref / bentref hwy.

Mae angen iddynt farcio yn glir yr holl adeiladau cymunedol allweddol a'r siopau ac, os yn briodol, lle mae pobl y maent yn eu hadnabod yn byw.

Gellid ehangu hyn yn ddarn celf 3D i fynd ar fur y dosbarth, gan ganolbwyntio ar ble lleolir yr ysgol.

Maes Astudiaeth 11 - Ysgrifennu Creadigol

Gwaith Ysgrifenedig: Project Barddoniaeth Ein Tref

Adnabod siopau adnabyddus, adeiladau, ardaloedd yn y dref e.e. ysgol, siop sglodion, cae chwarae, cigydd, archfarchnad, siop papur newydd, eglwys ac ati.

Trafodwch unrhyw beth a ddaw i'r meddwl pan fo'r dosbarth yn meddwl am le unigol.

Lluniwch hwy, fesul lle, ar ffurf rhestr.

Gallai'r gerdd fodoli fesul rhestr syml, neu gellid dyrannu lle i ddisgyblion penodol ac ymestyn y rhestr yn gerdd 'go iawn'.

Ysgrifennwch y gerdd, efallai gyda gwaith celf i fynd gyda hi, a gofynnwch os gellir ei harddangos yn y man penodol hwnnw, gan ddefnyddio ffurf acrostig efallai (gweler **Maes Astudiaeth 6 - Ysgrifennu Barddoniaeth)**

Gallai hwn fod yn broject lle gallai'r maer a'r cyngor lleol chwarae rhan.

Gwaith Ysgrifenedig: Cerdd 'Rwyf I'

Addaswch y fformat cerdd **Rwyf I** (gweler **Maes Astudiaeth 6)** i fod yn berthnasol i'r dref gyfan.

Maes Astudiaeth 12 - Ysgrifennu Ffeithiol

Gwaith Ysgrifenedig: Arweinlyfrau

Ysgrifennwch gofnod arweinlyfr ar gyfer eich tref. Sicrhewch bod yr iaith yn 'gwahodd'. Rhaid iddynt beintio darlun gyda geiriau.

(Gweler Dalen Ddisgyblion 12)

Cerdded trwy'r Porth i Ogledd Cymru

Mae gan Sir y Fflint gymaint i'w gynnig - cyfoeth o weithgareddau hamdden a diwylliannol, cefn gwlad gyda hyfrydwch eithriadol, hanes cyfoethog a chynhyrfus dros saith canrif, ac amrywiaeth eang o lety safon uchel a thafarndai gwledig cyfeillgar. Sir y Fflint yw'r porth i Ogledd Cymru.

Mae'r Wyddgrug, gem yng nghoron Sir y Fflint, yn dref marchnad brysur, sydd o hyd yn cynnal marchnad stryd fawr yn yr 21ain ganrif. Yn llawn o siopau diddorol ac anarferol, ynghyd â ffefrynnau arferol y stryd fawr, a gwledd o fwytai, mae'n nythu yng nghôl Bryniau Clwyd.

Cewch olygfa wych o'r theatr ar y bryn - Clwyd Theatr Cymru - complecs diwylliannol bywiog yn darparu'r gorau mewn theatr, ynghyd â sinema a thair oriel gelf.

Ymwelwch â'r Wyddgrug, Sir y Fflint - cartref hanes a diwylliant.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Maes Astudiaeth 13 - Bwlio

Darllen a Thrafodaeth : *The Bully Asleep*

Yn **Gair am Air** mae Dyfrig yn bwlio Sally gan nad yw cystal ddarllenwr ag ef, er ei bod yn ei brofi'n anghwyir yn y diwedd trwy ddod yn athrawes. Darllenwch y gerdd *The Bully Asleep* gyda'r dosbarth o leiaf ddwywaith cyn ateb y cwestiynau isod. Mae'n bwysig eu bod yn adeiladu darlun mor gryf ag y bo modd o fywyd Bill

(Gweler Dalen Ddisgyblion 13)

1 - Beth yw'r berthynas rhwng Jimmy, Roger, Jane a Bill?

2 - Pam fyddai bachgen ifanc mor flinedig fel y byddai'n syrthio i gysgu yn yr ysgol?

3 - Pam nad yw Miss Andrews, yr athrawes, yn deffro Bill?

4 - Beth ydym yn ei wybod am fywyd cartref Bill?

5 - Pam fo Jane yn 'tearful and foolish', a pham mae eisiau cysuro Bill?

Y pwynt pwysig i'w bwysleisio i'r dosbarth yw bod y gerdd hon yn cyffwrdd ar y ffaith bod bwlis yn aml yn dioddef bwlio mewn rhannau eraill o'u bywydau, ac mai bwlio yw ymdrech ofer i gesio cael rhyw gymaint o'r grym yn ôl. Yn amlwg, mae'r un mor bwysig pwysleisio nad yw hyn yn esgusodi eu gweithredoedd.

Drama - Gwaith Byrfyfyr : Bill yn y Cartref a'r Ysgol

Rhennwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar neu bump. Maent yn mynd i greu gwaith byrfyfyr dau ran, gan archwilio dwy ochr bywyd Bill.

Golygfa 1 - Daw Bill gartref o'r ysgol ar nos Fawrth. Yn fyr, dangoswch i'r gynulleidfa sut noson a gaiff. Rhaid i ni ei weld yn cael ei drin yn 'llym' mewn rhyw ffordd, er nad oes trais corfforol yn angenrheidiol. Maent angen delio gyda'r cwestiynau canlynol yn yr olygfa:

* A oes unrhyw un yn cymryd diddordeb yn ei ddiwrnod yn yr ysgol?
* A oes unrhyw un yn gwneud te iddo?

* Pam fo'n aros ar ei draed yn hwyr?
* A oes ganddo frodyr a chwiorydd?
* Sut maent yn ymddwyn tuag ato?
* A yw ei dad o gwmpas, neu a gaiff ei grybwyll?
* Sut mae ei fam yn ymddwyn tuag ato?

Mae'r olygfa hon yn dod i ben gyda Bill yn cysgu o'r diwedd.

Golygfa 2 - Gwelwn Bill yn yr ysgol drannoeth, yn bwlio Jimmy, Roger a Jane.

* Sut mae'n eu trin?
* Beth ddywed yr athrawes?
* Sut mae'n ymddwyn?

Daw'r olygfa i ben lle mae'r gerdd yn cychwyn - gydag ef yn syrthio i gysgu.

Mae angen iddynt ddangos newid llwyr yng nghymeriad Bill - gartref mae'n berson gwan, trist, di-rym, ac yn yr ysgol mae'n dreisgar, swnllyd a chreulon.

Gall y disgyblion, ar wahân i'r actor sy'n chwarae rhan Bill, chwarae un rhan yn yr olygfa gartref a rhan arall yn yr olygfa ysgol. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu hymestyn trwy chwarae cymeriadau gwrthgyferbyniol.

Efallai y bydd angen eu hatgoffa nad darn doniol yw hwn - mae'n bwnc difrifol ac mae angen i'r darn fod yn un difrifol.

Mae'r disgyblion yn dangos eu darnau, ar ôl ymarfer, ac mae'r dosbarth yn eu trafod.

Trafodaeth : Bwlio

Gallai'r dasg gynnig cyfle i atgoffa disgyblion o bolisi'r ysgol ar fwlio, a beth y dylent ei wneud os ydynt yn cael eu bwlio.

Trafodaeth : Ofnau ynglyn ag Ysgol Uwchradd

Mae ***Gair am Air*** yn digwydd yn yr haf rhwng yr adeg pan fo Sally, Kate, Maldwyn a Dyfrig yn gadael yr ysgol gynradd a mynd i'r ysgol uwchradd. Er nad yw'n cael ei archwilio yn y ddrama, mae'n rhaid bod gan Sally ofnau ynglyn â chael ei bwlio, fel sy'n digwydd gan Ddyfrig, gan ddisgyblion hyn yn yr ysgol newydd. Mae hefyd yn poeni am golli cyfeillgarwch Kate gan eu bod yn mynd i ysgolion gwahanol.

Gallai hyn ysgogi trafodaeth yn y dosbarth ynglyn â'u gobeithion a'u hofnau ynglyn aâ'r ysgol uwchradd, a chyfle i chwalu rhai chwedlau.

Maes Astudiaeth 14 - Dinasyddiaeth

Trafodaeth: Torri i Mewn

Mae ymateb y Supersonics i anafiadau Reg a'r adroddiad yn y papur newydd yn gymysg, ac maent yn panicio. Maent yn cynnig nifer o awgrymiadau, rhai ohonynt yn cael eu gwrthod ar unwaith:

1 - Dweud wrth ryw berson mewn awdurdod nad yw'r adroddiad yn y papur yn wir

2 - Dweud wrth eu rhieni yn union beth a ddigwyddodd

3 - Galw draw i weld os yw'n iawn, heb gyfaddef mai nhw oedd yno

4 - Anfon llythyr ato, yn esbonio beth ddigwyddodd ac yn ymddiheuro

5 - Dweud wrth neb, dweud dim ac actio'n 'normal'

6 - Tynnu blewyn cwta ac un person yn cyfaddef

7 - Rhedeg i ffwrdd

Trafodwch yr opsiynau hyn a chael y dosbarth i drafod y mater nes dod at y ffeithiau:

* Er nad yn uniongyrchol gyfrifol am ei anafiadau, gellid dadlau eu bod yn anuniongyrchol gyfrifol oherwydd hwy a'i dychrynnodd ac efallai bod hyn wedi achosi iddo faglu mewn rhyw ffordd a syrthio.

* Er nad eu bwriad oedd torri i mewn i dy rhywun arall (roeddent yn meddwl bod y lle yn wag) fe wnaethant, er hynny, fynd i dy arall, heb wahoddiad.

Gofynnwch i'r dosbarth:

Beth fuasent hwy yn ei wneud mewn sefyllfa debyg?

Beth yw'r peth iawn i'w wneud?

Trafodaeth: Beth ddylai'r Supersonics ei wneud

Rhennwch y dosbarth yn ddau grwp sydd angen cronni cyfiawnhad dros un o'r ddau opsiwn, gan drafod syniadau a'u nodi ar bapur siwgr yn gyntaf, yna dewis hyd at 4 o'u plith i gyflwyno'r ffeithiau i'r dosbarth mewn trafodaeth ffurfiol.

Y ddwy ochr yw:

* Cred yr ochr hon mai gwneud dim oedd yr ymateb gorau i'r sefyllfa
* Cred yr ochr hon mai dweud wrth eu rhieni oedd yr ymateb gorau i'r sefyllfa

Trafodaeth: Celwydd Reg

Mae'r sefyllfa yn cael ei datrys yn y pen draw pan fo Sally a Kate yn cyfarfod Reg sy'n egluro iddynt iddo wneud rhywbeth drwg - peidio â chyfaddef i'r dref na chafodd ei guro. Mae wedi mwynhau'r holl sylw ac mae wedi bod braidd yn unig.

A yw'r dosbarth yn ystyried bod yr hyn a wnaeth Reg yn iawn?

Gwaith Ysgrifenedig a Thrafodaeth: Dinesydd Da

Gofynnwch i'r dosbarth ysgrifennu rhestr bersonol o'r hyn a dybient sy'n gwneud aelod da o ysgol neu'r gymuned yn gyffredinol.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol rhannu gyda hwy **ddatganiad cenhadaeth** yr ysgol neu ofynion yr ysgol mewn perthynas ag ymddygiad disgyblion yn y dosbarth.

Yna mae unigolion yn rhannu'r rhestri gyda'r dosbarth ac yn eu trafod.

Lluniwch restr derfynol o'r hyn sy'n gwneud aelod da o ysgol/gymuned a'i harddangos yn y dosbarth.

Maes Astudiaeth 15 - Marwolaeth

Yn ***Gair am Air,*** mae'r Supersonics yn canfod fod Reg wedi marw o henaint. Maent yn mynd i weld y bedd er nad oes ganddynt ddigon o arian ar gyfer blodau. Maent yn penderfynu cyfarfod pan yn 25 i wneud rhywbeth ar ei ran. Yna gwelwn hwy fel oedolion a chanfod eu bod wedi cysegru mainc iddo gyda'r plac:

Er Cof am Reg - a oedd yn gwybod sut i gadw cyfrinach - Y Supersonics

Er bod hwn yn faes anodd, gallai roddi cyfle i ganfod colledion personol ymhlith y dosbarth, a thrafod dulliau o gofio a dathlu'r rhai yr ydym wedi eu colli.

Maes Astudiaeth 16 - Hawliau a Chyfrifoldebau

Gwybodaeth: Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol

Rhennwch y wybodaeth ganlynol gyda'r disgyblion:

Mae'r **Cenhedloedd Unedig** wedi eu lleoli yn adeilad y Cenhedloedd Unedig yn **Efrog Newydd.** Sefydlwyd y mudiad ym **1945** ar ddiwedd yr **Ail Ryfel Byd.** Yr amcan oedd sicrhau nad oedd pobl yn cael eu trin fel y cafodd pobl eu trin yn ystod y rhyfel (yr Iddewon, Sipsiwn, Howyon ac ati) byth eto. Crewyd rhestr o hawliau y dylai pawb eu cael.

Darllenwch y detholiad canlynol o hawliau iddynt:

Erthygl 1 - Mae pob bod dynol wedi ei greu yn rhydd ac yn gyfartal o ran urddas a hawliau. Rhoddir iddynt reswm a chydwybod a dylent weithredu tuag at ei gilydd gydag ysbryd brawdoliaeth.

Erthygl 4 - Ni ddylid cadw neb mewn caethwasanaeth neu gaethiwed - a dylid gwahardd masnach mewn caethweision o bob math.

Erthygl 5 - Ni ddylai unrhyw berson fod yn destun artaith neu driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol.

Erthygl 6 - Mae gan bawb yr hawl i gydnabyddiaeth ym mhob man fel person gerbron y gyfraith.

Erthygl 20 - Mae gan bawb yr hawl i ryddid i ymgynnull a chymdeithasu yn heddychlon.

Erthygl 26 - Mae gan bawb yr hawl i addysg.

Trafodaeth : Ein Hawliau

Gofynnwch i'r dosbarth benderfynu ar beth ddylai eu hawliau hwy fod a'u hysgrifennu i'w dangos yn y dosbarth e.e.

* yr hawl i gael eu trin yn deg a chyfartal

* yr hawl i bobl wrando arnynt

* yr hawl i fod yn rhydd rhag ofni bwlis

* yr hawl i ddweud 'na' os ydych yn anghysurus neu'n anhapus ynglyn â rhywbeth

* yr hawl i ddweud 'nid wyf yn deall' a gofyn am fwy o wybodaeth

* yr hawl i fynegi teimladau

* yr hawl i fod yn fi fy hun ac ati

Efallai y bydd disgyblion yn dweud bod ganddynt yr hawl i fod yn afresymol neu ddweud pethau gwirion e.e. dim ysgol. Mae'n bwysig troi hyn yn ôl a'u cael i ddeall bodolaeth addysg-

“Ond os nad oes gennych yr hawl i ysgol, yna nid ydych yn cael dysgu am y byd, fel bod gennych fwy o ddewis swyddi pan 'rydych yn hyn ac ennill yr arian rydych yn ei haeddu i gael bywyd hapus a chysurus.”

Mae hyn fel arfer yn rhoi stop ar hynny!

<u>Trafodaeth: Ein Cyfrifoldebau</u>

Esboniwch bod cyfrifoldebau yn dod ochr yn ochr gyda hawliau. Nid yw o werth mynnu hawliau, os nad ydych yn barod i fod yn gyfrifol.

Fel o'r blaen, lluniwch restr o gyfrifoldebau y maent oll yn cytuno arnynt ac arddangos y canlyniadau e.e. -

* y cyfrifoldeb i ganiatáu i bawb fod pwy ydynt a pheidio â gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu bwlio

* y cyfrifoldeb i adael i bobl gael dweud eu dweud a gwrando arnynt yn rhesymol

* y cyfrifoldeb i barchu pobl hyn sy'n gofalu amdanaf

* y cyfrifoldeb i barchu eiddo pobl a pheidio â'i drin yn ddifeddwl gan mai nid fi sydd biau o ac ati

The Bully Asleep

gan John Walsh

One afternoon, when grassy
Scents through the classroom crept,
Bill Craddock laid his head
Down on the desk, and slept.

The children came round him:
Jimmy, Roger, and Jane;
They lifted his head timidly
And let it sink again.

'Look, he's gone sound asleep, Miss,'
Said Jimmy Adair:
'He stays up all the night, you see;
His mother doesn't care.'

'Stand away from him, children.'
Miss Andrews stooped to see.
"yes, he's asleep; go on
With your writing, and let him be.'

'Now's a good chance!' whispered Jimmy;
And he snatched Bill's pen and hid it.
'Kick him under the desk, hard;
He won't know who did it.'

'Fill all his pockets with rubbish -
Paper, apple-cores, chalk.'
So they plotted, while Jane
Sat wide-eyed at their talk.

Not caring, not hearing,
Bill Craddock he slept on;
Lips parted, eyes closed -
Their cruelty gone.

'Stick him with pins!' muttered Roger.
'Ink down his neck!' said Jim.
But Jane, tearful and foolish,
Wanted to comfort him.

Ffurflen Werthuso yr Athro/awes

Enw'r Athro/awes:

Ysgol:

Nifer o ddisgyblion:

Grwp Blwyddyn:

Nodwch sylwadau ar *Air am Air* os gwelwch yn dda:

Nodwch sylwadau ar y Gweithdai:

Nodwch sylwadau ar ba mor ddefnyddiol oedd y Pecyn Athrawon a pha feysydd a ddefnyddiwyd gennych, os o gwbl:

Sut gellid gwella'r Pecyn Athrawon?

Diolch yn fawr